# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 12 Gorffennaf 2016

Amser: 09.26 - 09.36

# Cyfarfod preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Jayne Bryant AC (Cadeirydd)<br>Paul Davies AC<br>David J Rowlands AC |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod cyntaf Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Pumed Cynulliad.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Dafydd Elis-Thomas.

1.3 Cyflwynodd Aelodau'r Pwyllgor a'r swyddogion eu hunain.

## 2 Busnes cynnar a chyfrifoldebau'r pwyllgor

2.1 Enwebwyd Dafydd Elis-Thomas i weithredu yn unol ag Adran 10.2 o'r weithdrefn gwynion.

2.2 Nododd yr Aelodau gyfrifoldebau'r Pwyllgor.

2.3 Bu'r Aelodau yn trafod y papur ar fusnes cynnar a chytunwyd:

- Cynnal sesiwn ragarweiniol gyda'r Comisiynydd Safonau presennol a'r Comisiynydd newydd yn nhymor yr hydref;
- Bwrw ymlaen â'r gwaith mewn perthynas â chofrestru dwbl sy'n ymwneud â manylion ariannol;
- Bwrw ymlaen â gwaith mewn perthynas â'r canllawiau i Aelodau ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a materion cynllunio; a
- Bwrw ymlaen â gwaith mewn perthynas â lobïo.

## 3 Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Safonau ar gyfer 2015-16

3.1 Cytunodd yr Aelodau i gynnal sesiwn o'r Pwyllgor gyda'r Comisiynydd Safonau yn ystod tymor yr hydref i drafod ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2015-16. Nododd yr Aelodau fod disgwyl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ar 12 Gorffennaf 2016.